Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Cyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian

CARDIFF
CAERDYDD



# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Cyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o ymholiadau am y cyfiawnhad dros wahardd y troad dde o Heol Marlborough i Heol Pen-y-lan ac o Heol Wellfield i Heol Marlborough fel rhan o'r prosiect uchod. Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi i helpu i egluro'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad hwn.

Datblygwyd y mesurau hyn i gefnogi newidiadau i gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian / Heol Pen-y-lan / Heol Marlborough a lleihau'r effaith bosibl y gallai'r newidiadau hyn eu cael ar y gyffordd a'r rhwydwaith ehangach.

Mae'r newidiadau ar y gyffordd yn cynnwys cyflwyno man croesi beiciau newydd, mannau croesi lletach i gerddwyr a newidiadau i'r ardal o amgylch y Ganolfan Gymunedol a'i maes parcio.






Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Llwybr Beicio Parc y Rhath


## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Heol Wellfield / Heol Ninian – modelu traffig


Ar hyn o bryd mae'r gyffordd â signalau yn gweithredu ar bedair dilyniant signal a elwir yn gamau, fel y dangosir yn y diagram ar y dde. Yn ystod pob cam, rheolir traffig ar bob cangen o'r gyffordd.

Er mwyn caniatáu i feicwyr groesi'r gyffordd yn ddiogel fel rhan o'r llwybr beicio newydd, mae angen ychwanegu cam signal ychwanegol at yr amseriadau. Mae hyn er mwyn caniatáu i feicwyr groesi'r ffordd pan nad yw traffig yn llifo, neu pan fo cerddwyr yn croesi'r ffordd ar ddyn gwyrdd.

Mae darparu ar gyfer croesfan feicio yn golygu bod angen cam ychwanegol. Gallai hyn olygu bod y gyffordd yn newid o bedwar cam i bump. Fodd bynnag, byddai llai o 'amser golau gwyrdd' ar gael ar gyfer traffig, felly byddai llai o draffig yn mynd trwy'r signalau traffig. Mae hyn yn arwain at gapasiti cyffordd is a mwy o giwiau traffig.




Ar hyn o bryd mae pedwar cam signal yn gweithredu ar y gyffordd




Mae angen cam ychwanegol i ddarparu ar gyfer y groesfan feicio – sy'n golygu galw ychwanegol

Cam beicio newydd



Gwnaed modelu traffig i edrych ar sut y gellid lleihau'r galw ychwanegol ar amser ar gyfer y gyffordd (oherwydd y cam ychwanegol). Ystyriodd hyn ddata arolwg traffig i greu amodau gwaelodlin a phrofi gwahanol opsiynau, megis rhedeg y camau presennol gyda cham beicio ychwanegol, rhedeg camau ar yr un pryd, tynnu lonydd traffig, neu wahardd symudiadau troi.


# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Heol Wellfield / Heol Ninian – modelu traffig


Canfu'r modelu, trwy redeg camau traffig Heol Pen-y-lan a Heol Wellfield ar yr un pryd, y byddai gwelliant i berfformiad y cyffordd. Mae hyn yn golygu na fyddai'n rhaid i'r gyffordd weithredu ar bum cam, dim ond pedwar.

Cafodd y gwaharddiad ar wahanol symudiadau troi ei brofi hefyd, wrth i ddata arolwg traffig ddangos bod rhai symudiadau â chyfrifau traffig isel. Fel y symudiadau troi dde o Heol Wellfield a Heol Marlborough.






*Trefniant presennol*



*Trefniant arfaethedig*

Modelwyd nifer o opsiynau. O ystyried popeth, mae'r symudiadau troi a ddewiswyd (i'w gwahardd) wedi eu dewis ar sail galw, capasiti a'r perfformiad gorau ar gyfer y gyffordd.

Mae'r newidiadau i'r camau wedi golygu y gellid gwella'r aliniad hefyd er budd cerddwyr, megis llai o bellteroedd croesi a darparu lle aros gwell.

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Heol Wellfield / Heol Ninian – data arolwg

| Dyddiad | AM / PM Awr frig | Heol Marlborough i Heol Pen-y-lan (ceir yr awr) | Heol Wellfield i Heol Marlborough (cya) |
|---|---|---|---|
| Mai 2009 | AM | 33 | 47 |
| | PM | 55 | 26 |
| Tachwedd 2021 | AM | 28 | 5 |
| | PM | 26 | 10 |
| Mawrth 2022 | AM | 31 | 3 |
| | PM | 24 | 15 |
| Chwefror 2024 | AM | 26 | 8 |
| | PM | 32 | 7 |

Mae'r tabl uchod yn dangos y symudiadau troi i'r dde ar y gyffordd ar gyfer Heol Wellfield Road a Heol Marlborough Road o'r data a ddefnyddiwyd fel rhan o'r ymarfer modelu.

Darperir mwy o wybodaeth yn yr adran Cwestiynau Cyffredin ar ddiwedd y ddogfen hon am y cynllun hwn.

Defnyddiodd y broses fodelu ddata o fis Mawrth 2022. Roedd hefyd yn ystyried data Tachwedd 2021 a data cyn Covid-19 o fis Mai 2009 fel cymhariaeth, tra bod y data diweddarach yn cael ei ddefnyddio i adlewyrchu amodau traffig mwy diweddar.

Rydym hefyd wedi casglu data ers i'r modelu gael ei wneud at ddibenion monitro. Defnyddiwyd y data diweddaraf, (Chwefror 2024) i ddiweddaru'r model.

Cadarnhaodd y modelu diweddaraf hwn y bydd trefniant y cynllun newydd, gyda gwahardd y ddau symudiad troi, yn gwella capasiti'r gyffordd o'i gymharu â'r trefniant presennol a'r amodau cyn Covid.

Byddai peidio â bwrw ymlaen â gwahardd y symudiadau troi, ond parhau i gynnwys y manteision ffisegol i feicwyr a cherddwyr y byddai'r newidiadau i'r gyffordd yn eu cynnig, yn gweld gostyngiad yng nghapasiti'r gyffordd a chynnydd mewn ciwiau traffig.

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Heol Wellfield / Heol Ninian – monitro


Rydym wedi nodi pryderon trigolion ynghylch dadleoli traffig. Nid ydym yn rhagweld bod hyn yn broblem yn y tymor hir oherwydd y nifer isel iawn o gerbydau a gaiff eu dadleoli.

Mae arolygon monitro diweddar ac arsylwadau ar y safle wedi cadarnhau bod lefelau traffig yn debyg i'r data a ddefnyddir yn y modelu.

Byddwn yn parhau i fonitro'r symudiadau troi a chynnal arolygon pellach fel rhan o fonitro gweithrediad cyn y cynllun ac ar ôl y cynllun. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i benderfynu a oes angen unrhyw fesurau rheoli traffig pellach.

Rydym hefyd yn ceisio cynnal asesiadau Teithio Llesol o amgylch Ysgol Gynradd Marlborough i weld a ellir gwneud unrhyw welliannau dros dro.

Bod y cynllun yn cael ei weithredu ar y safle o ddiwedd mis Chwefror 2024. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar Wefan y Contractwyr: www.kbinfowales.co.uk neu drwy ddilyn y ddolen ar wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk/LBPR-C1






# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Cwestiynau Cyffredin

**Pa welliannau a gaiff eu gwneud ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian?** Mae'r Cyngor yn cynllunio gwelliannau i'r gyffordd ar gyfer cerddwyr a beicwyr sydd yn integreiddio â'r llwybr beicio dros dro presennol ar Heol Wellfield gan gynnwys newidiadau i faes parcio'r Ganolfan Gymunedol. Gan y bydd camau'r signalau yn cael eu diweddaru i gynnyws croesfan feicio, bydd rhai symudiadau troi yn cael eu gwahardd. Bydd hyn yn helpu gweithrediad y gyffordd a lleihau tagfeydd.

**Beth mae gwahardd symudiadau troi yn ei olygu?** Mae'r gwaharddiad ar symudiadau troi yn golygu na fyddwch yn gallu gwneud symudiadau penodol yn gyfreithiol. Mae'r rhain yn cael eu gorfodi fel rhan o'r Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT). Fel rhan o'r cynllun hwn, ni fydd modd bellach i ch droi i'r dde o Heol Wellfield i Heol Marlborough, nac i'r dde o Heol Marlborough i Heol Pen-y-lan.

**Pam fod y GRhT yn cael ei weithredu? Gwrthwynebais y cynnig hwn.** Gellir gwneud GRhTau er gwaethaf gwrthwynebiadau gan y cyhoedd a Chynghorwyr oherwydd yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol at ddibenion diogelwch ar y ffyrdd, rheoli traffig, neu ddiogelu'r amgylchedd. Mae Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud GRhTau.

**Beth am draffig a ddadleolir gan y gwaharddiad ar symudiadau troi wrth y gyffordd?** Mae arolygon traffig wedi nodi lefel isel o symudiadau troi o Heol Wellfield i Heol Marlborough ac o Heol Marlborough i Heol Pen-y-lan yn ystod oriau brig. Trwy fodelu, rydym wedi ystyried nifer o opsiynau ac wrth bwyso a mesur, mae'r opsiwn a ddewiswyd yn cynorthwyo i ddarparu'r capasiti a'r perfformiad gorau ar gyfer y gyffordd. Mae'n debygol y byddai'r mân ddadleoli ar draffig sy'n gysylltiedig â'r opsiwn arfaethedig, yn drech nag unrhyw effaith negyddol y byddai unrhyw opsiwn arall yn ei greu. Byddai cyrchfannau'r traffig a ddadleolir hefyd yn amrywio, felly mae'n debygol y bydd unrhyw draffig a ddadleolir yn ystod oriau brig y bore a'r prynhawn yn ddibwys.

**A oedd digon o Ymgynghori ar y cynllun hwn?** Mae'r cynllun wedi bod yn destun sawl ymgynghoriad fel rhan o'r broses o gyflawni'r prosiect. Ymgynghorwyd ar y cynllun gyntaf ym mis Mawrth 2022 a chynhaliwyd ail ymgynghoriad rhwng 16 Rhagfyr 2022 ac 15 o Ionawr 2023. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r Gorchmynion arfaethedig, gan gynnwys y gwaharddiad arfaethedig ar symudiadau troi ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Marlborough, yn yr ail ymgynghoriad (Rhagfyr 2022/Ionawr 2023). Roedd yr ymgynghoriad eilaidd (sy'n gysylltiedig â'r prif gynllun) yn cynnwys anfon llythyrau, gwybodaeth ar wefan y Cyngor, a gwybodaeth a ddangoswyd yng Nghanolfan Gymunedol Pen-y-lan. Yn ogystal â'r ymgynghoriadau hyn, dechreuodd ymgynghoriad statudol ar gyfer proses y Gorchymyn Rheoli Traffig ar 8 Rhagfyr 2023 a daeth i ben ar 30 Rhagfyr 2023.

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Cwestiynau Cyffredin (parhad)

**Pam na wnes i dderbyn llythyr am y GRhTau?** Mae'r broses GRhT yn broses ar wahân i brif ymgynghoriadau prosiectau penodol. Er mwyn gwahardd symudiadau troi a'r Gorchmynion eraill sy'n gysylltiedig â'r cynllun, rhoddwyd hysbysiadau safle a hysbysiad papur newydd ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori statudol 21 diwrnod (o 8 Rhagfyr 2023). Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor gyhoeddi hysbysiad yn y papur newydd sy'n manylu ar ei gynigion. Fodd bynnag, mewn ymdrech i fod yn fwy agored a thryloyw, mae'r Cyngor hefyd yn sicrhau bod hysbysiadau safle'n cael eu gosod. O ganlyniad i'r Hysbysiadau Safle a'r Hysbysiad Papur Newydd sy'n gysylltiedig â'r cynnig Gorchymyn Rheoleiddio Traffig, dechreuwyd derbyn ymatebion o'r 10fed o Ragfyr

**Beth am faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd?** Nid yw asesiadau effaith ansawdd aer wedi bod yn rhan o ddatblygiad y cynllun. Fodd bynnag, mae nodau ac amcanion y cynllun yn cyd-fynd â llawer o bolisïau lleol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer, teithio llesol, a newid moddol. Er mwyn lliniaru effeithiau trafnidiaeth y twf poblogaeth disgwyliedig yng Nghaerdydd, yn ogystal â chyfyngu ar effeithiau negyddol trafnidiaeth ar newid yn yr hinsawdd, ansawdd aer, iechyd a'r economi, mae Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd a'r Papur Gwyn Trafnidiaeth yn gosod targedau ar gyfer cynyddu lefelau Teithio Llesol. Fel yr amlinellwyd ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth a Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor, mae'r Cyngor wedi cyflwyno targedau amrywiol i annog teithio llesol a chynaliadwy ledled Caerdydd ac i annog pobl allan o'u ceir i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. Mae hyn yn cael ei wneud trwy wella beicffyrdd ac arosfannau a llwybrau bysiau sy'n rhan annatod o'r cynllun hwn. Mae'r mesurau a gynigir fel rhan o'r cynllun hwn, a chynigion ehangach y cynllun, yn cyd-fynd â hierarchaeth ffyrdd, wrth roi mwy o bwyslais ar ddarparu mesurau Teithio Llesol a mynediad at Deithio Cynaliadwy dros ddefnydd ceir.

Cynhaliwyd asesiadau amrywiol i lywio'r prosiect, er nad oes angen Asesiadau Cynaliadwyedd ar gyfer prosiectau trafnidiaeth o'r math hwn. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan o gynnig y cynllun. Nid yw'r cynllun yn destun Asesiad Effaith Amgylcheddol, er bod sgrinio amgylcheddol, arfarniadau treftadaeth a thirwedd wedi'u cynnal i lywio'r cynnig ehangach ar gyfer Beicffordd y Rhath.